

Twf Militariaeth - Y Chwalfa Amgylcheddol

Sgwrs gan y Dr Charlotte Davies yng nghyfarfod cell Caerfyrddin o Gymdeithas y Cymod, 13 Rhagfyr 2010

Fel un sy'n edmygu gwaith y Gymdeithas yn fawr, rydw i'n ddiolchgar am y gwahoddiad i siarad am y cysylltiadau rhwng y mudiad heddwch a mudiad y Ddaear. Ond mae'n anrhydedd dydw i ddim yn teimlo fy mod yn ei haeddu wrth feddwl am fy nghefnidir a pha mor gymharol araf mae f'ymroddiad i'r mudiad heddwch wedi bod yn datblygu.

Dyw fy nghefnidir teuluol ddim wedi f'arwain yn y cyfeiriad yna. Roedd fy nhad yn dod o Dde Carolina, talaith sy'n falch iawn o'i thraddodiad milwrol yn ystod Chwyldroad America ac yn arbennig yn ystod Rhyfel Cartref America yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fy nhad oedd yr ifancaf o wyth o blant, saith ohonynt yn fechgyn, yn tyfu lan yn ystod y Dirwasgiad. Roedd y teulu yn dlawd iawn - collodd fy nhad-cu ei waith pan gaeodd y banc lleol - ond llwyddodd fy nhad, a'r rhan fwyaf o'i frodyr i fynd i brifysgol. Talodd am ei addysg ym Mhrifysgol Clemson trwy ymuno a'r fyddin - y ROTC, Reserved Officer Training Corps - gyda'r cyfrifoldeb i aros yn y fyddin am gyfnod ar ôl graddio.

Dydw i ddim yn gwybod os byddai wedi gwneud y fyddin ei yrfa. O bosib na, gan ei fod wedi llwyddo i gael ysgoloriaeth i fynd ymlaen i astudio am MA ym Mhrifysgol Kentucky, ble cwrddodd â fy mam. Ond beth bynnag oedd ei fwriad, fe ddaeth y rhyfel i'r UDA ar ddiwedd 1941. A blwyddyn ddiweddarach, 3 wythnos ar ôl i fi gael fy ngeni, dyna fe'n mynd gyda'r Second Armored Division dan General George Patton i Ogledd Affrica, wedyn Sicily, ac ymlaen i Loegr ble arhosodd yn Salisbury tan iddo lanio yn Normandy ar 9 Mehefin 1944, 3 diwrnod ar ôl D-Day. Aeth ar draws Normandy a Belgiwm at yr Afon Elbe, gan gael ei anafu a cholli ffrindiau agos.

Roedd e'n Major wrth adael y fyddin ar ddiwedd y rhyfel. Arhosodd yn y Reserves, nes ymddeol yn Colonel. Roedd profiadau tebyg yn gyffredin i lawer iawn o'i genhedlaeth: Roedd tri brawd a nai wedi bod yn y lluoedd arfog yn ystod y rhyfel; yn wyrthiol, roedd pob un wedi byw trwy'r profiad. Roedd fy nhad yn falch o'i ran yn dod â Naziaeth i ben ac roeddwn i'n falch ohono fe.

Serch hynny, pan ddaeth cyfnod Rhyfel Fietnam, roeddwn i'n raddol yn dod i anghytuno gyda llywodraeth fy ngwlad a throais yn gryf yn erbyn y rhyfel yna, gan gymryd rhan mewn ambell i brotest myfyrwyr.

Wrth ddod i Gymru yng nghanol y 1970au, a chwrdd â Hywel, roedden ni'n dau yn cefnogi'r Ymgyrch Diarfogi Niwclear, a hefyd yn gwrthwynebu ynni niwclear. Yn ddiweddarach, mae'r rhyfeloedd yn Irac ac Afghanistan yn amlwg yn dangos oferedd rhyfel a sut mae trais dim ond yn bwydo trais.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf rydw i wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o'r cysylltiad rhwng blaenoriaethau gwyrdd a'r mudiad heddwch. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae Hywel a minnau, trwy'r *Papur Gwyrdd*, wedi bod yn ceisio dod â chyddestun ein bodolaeth wyrthiol ar blaned, ac yn benodol ein hymateb i gynhesu bydeang a lleihad adnoddau'r ddaear, yn fwy o bwnc trafod Cymraeg. Rwyf wedi fargyhoeddi bod rhaid i'r gweithredu dros y ddau fudiad cyd-weithio a chyd-redeg. Sylweddolaf fod militariaeth a newid hinsawdd ynghlwm wrth ei gilydd i'r pwynt bod dim synnwyr i ymgyrchu yn erbyn dim ond un. Sylweddolaf hefyd fod difrod i'r Blaned Ddaear wrth ryfela, a pharatoi i ryfela, yn ddifrod i bawb ymhobman, nid dim ond y 'dioddefwyr' mwyaf amlwg.

Gadawaf sylwadau am fy mhrofiad personol yma am y tro, er hoffwn ddychweled at hyn yn fyr wrth gloi, a throf at y ffyrdd niferus, gwahanol fod militariaeth a newid hinsawdd yn bwydo ar ei gilydd.

Y ffordd fwyaf amlwg yw sut y mae rhyfel a thrais militaraidd yn effeithio ar yr amgylchedd. Er enghraifft, mae astudiaeth yn 2004 gan y grŵp Physicians for Global Survival wedi gwneud y pwyntiau canlynol am ryfel 'confensiynol', h.y., un heb ddefnyddio arfau biolegol neu gemegol neu niwcliar:

- Creodd bomio gydag arfau *HEF* (*High Explosive Fragmentation*) gan UDA yn Fietnam 20 miliwn o dyllau mawr, wrth ddinistrio rhyw 200,000 hectar o dir. Mae'r tyllau bellach yn tueddu i lenwi â dŵr gan ddod yn llefydd bridio i fosquitos sy'n cario malaria.

- Mae bomiau tân (*incendiary weapons*) yn cael eu heffaith waethaf - yn nhermau amgylcheddol - ar blanhigion. Mae llosgi coedwigoedd yn arwain at gollir creaduriaid eraill sy'n dibynnu ar yr ecosystemau hynny ac at erydiad pridd, sydd hefyd mor ganolog i'n parhad. Wrth son am greaduriaid eraill - sef ein cyd-deithwyr ar y blaned - dywed yr arbenigwyr eu bod yn profi colledion enfawr yn eu rhifau a rhywogaethau cyfan ar hyn o bryd, yn ein cyfnod ni!
- O bosibl, yr arfau gwaethaf oll, o safbwynt yr amgylchedd, yw'r arfau *DU* '*depleted uranium*' [wraniwm disbydd]: yn 2002 roedd y Royal Society wedi amcangyfrif bod rhwng 70 ac 80 y cant o holl arfau *DU* yn dal wedi'u claddu yn y pridd, ble maent yn gollwng wraniwm i'r pridd i gael ei gymryd mewn i gyrff planhigion ac anifeiliaid neu i ddraenio i gyflenwadau dŵr.
- Rydyn ni i gyd yn ymwybodol o effaith Ffrwydron Tir ar bobl, yn anafu'n erchyll ac yn lladd. Ond hefyd maent yn golygu bod tir amaethyddol yn cael ei gollu: Er enghraifft, dangosodd astudiaeth yng nghanol y 1990au fod presenoldeb ffrwydron tir ar dir amaethyddol ym Mosnia wedi achosi gostyngiad mewn cynhyrchiad amaethyddol o ryw 10%; yn Afghanistan maent wedi bron haneru'r cynnyrch; ac yn Fietnam maent wedi cyfrannu at gwmp o 50 y cant yn y cynhaeaf reis. Maent yn lladd anifeiliaid domestig a bywyd gwyllt. Ac, yn debyg i arfau *DU*, maent yn gollwng gwenwyn i'r tir: mercwri, haearn, manganîs, cromiwm, sinc.

Ac er bod hyn oll mor ofnadwy, mae'n werth atgoffa ein hunain bod yr effeithiau hyn yn ganlyniad i ddefnydd dim ond o arfau 'confensiynol'. Go brin y byddai'r Ddaear yn goroesi defnydd ar yr un raddfa o arfau 'anghonfensiynol'(niwcliar, cemegol a biolegol) fel cartref planedol i bethau byw gan gynnwys dynolryw

Ystyriwch nawr y niwed amgylcheddol a achoswyd i un rhan o'r byd yn arbennig gan y rhyfeloedd yn Irac a Kuwait, eto gan ddefnydd o arfau 'confensiynol'.

Mae adroddiad gan y Cenhedloedd Unedig yn 2005 yn amcangyfrif bod 4 miliwn pwys o lwch ymbelydrol lefel isel o arfau *DU* wedi setlo dros Irac, sy'n golygu bod rhan fawr o'r dirwedd bellach yn ymbelydrol.

Yn ogystal, mae'r tanciau enfawr 70 tunnell a gafodd eu defnyddio yn rhyfel y Gwlff wedi effeithio'n enbyd ar ecoleg tiroedd Kuwait: Maent yn rhwygo'r haen denau o bridd ar y tir sych gan ei adael yn agored i fwy o erydu ac, yn y broses, yn rhyddhau CO₂ i'r awyr sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang yn ogystal. Mae tir amaethyddol Irac hefyd, sydd wedi bod yn ffrwythlon am filoedd o flynyddoedd wedi cael eu distrywio, yn troi'n anialwch, o ganlyniad i'r rhyfel.

Wrth gwrs, mae'r holl danciau a cherbydau milwrol eraill yn gwneud defnydd anhygoel o danwydd ffosil, gan ychwanegu at allyriadau i'r atmosffer o nwyon tŷ gwydr. Dyw'r lluoedd arfog ddim yn sôn am filltiroedd y galwyn wrth asesu eu tanciau ac ati, ond yn hytrach am alwyni'r filltir, neu alwyni'r munud.

Yn ei lyfr a gyhoeddwyd yn 2009, *The Green Zone: The Environmental Costs of Militarism* mae Barry Sanders yn edrych yn bennaf ar effaith militariaeth UDA ar yr amgylchedd. Mae'r awdur yn dod i'r casgliad bod ein gallu militaraidd yn peryglu ein bodolaeth ar y blaned:

'The earth can no longer absorb the punishment of war, ...

'When we declare war on a foreign nation, we now also declare war on the Earth, on the soil and plants and animals, the water and wind and people, in the most far-reaching and deeply infecting ways...

'War insinuates itself, like an aberrant gene and, left unchecked, has the capacity for destroying the Earth's complex and sometimes fragile systems.'

Mae'n ganolog o bwysig i ni gofio ein bod ni'n byw ar blaned, gan lwyr ddibynnu ar arwynebedd tenau iawn o'r blaned honno, sef haen denau o atmosffer gyda chymbwysedd o nwyon i'n cynnal, haen o bridd cynhyrchiol, ac ychydig o ddŵr croyw. Mae cydbwysedd y systemau gwahanol sy'n ein cynnal bron yn wyrthiol. Dyna yw cyd-destun ein bodolaeth fel dynoliaeth - a dyw'r Ddaear ddim yn tyfu, er yr holl siarad am 'growth'. Mae adnoddau'r blaned yn gyfyngedig. Rydyn ni'n byw nawr ymhell tu hwnt i'r hyn y mae'r blaned yn gallu cynnal ac mae ein ffordd o fyw yn

tanseilio ecosystemau naturiol y Ddaear rydym yn hollol ddibynnol arnynt. Rhaid sylweddoli does dim planed arall gennym... dyma ein cartref, rhaid ei hachub os rydyn ni, a'n plant - a phlant ein plant - yn mynd i bara.

Un o'r bygythiadau mwyaf i'r blaned ar sawl lefel yw militariaeth: Rydw i wedi siarad am ryfeloedd a'u heffaith ar y ddaear. Ond mewn ffordd mae rhyfel yn symptom – ac yn ganlyniad anochel – o'r system militaraid sy'n un o'r peryglon mwyaf i'r ddaear. Mae militariaeth yn llyncu ynni, adnoddau, tir a hyd yn oed yr awyr uwch ein pennau.

Defnyddir canran anhygoel o uchel o ddefnyddiau crai'r Ddaear gan luoedd arfog. Mae lluoedd arfog UDA yn defnyddio mwy o olew nag unrhyw gorff arall yn y byd, tua 100 miliwn baril y flwyddyn yn ystod cyfnod heddwch, sef tua'r un maint â defnydd ynni Gwlad Groeg. Yn 2005, roedd lluoedd arfog UDA wedi cynhyrchu 60 miliwn tonnell o CO₂, un y cant o allyriadau UDA, a'r un maint a holl allyriadau'R Ffindir. Yn yr un flwyddyn, roedd lluoedd arfog y Deyrnas Gyfunol wedi cynhyrchu 5 miliwn tonnell o CO₂, un y cant o allyriadau'r DG, a'r un maint â holl allyriadau Senegal. Mae tua chwarter o'r tanwydd awyrennau jet a losgir bob flwyddyn yn mynd i luoedd awyr y byd. Ac mae'r defnydd milwrol a wneir o alwminiwm, copr, nicel a phlatinwm yn fwy na defnydd y cyfan o wledydd y trydydd byd gyda'i gilydd.

Rydym yn gwybod o brofiad yng Nghymru bod sefydliadau milwrol hefyd yn farus iawn wrth hawlio tir. Ar ddechrau'r 1980au roeddent yn defnyddio rhwng 0.5 ac 1 y cant o holl dir y blaned - rhwng 750,000 a 1.5 miliwn o gilomedrau sgwâr. Yn UDA heddiw mae'r lluoedd arfau yn rheoli tiroedd sy'n fwy na'r Iseldiroedd, heb gynnwys y tiroedd ychwanegol dan reolaeth corfforaethau arfau preifat. Ac mae'r tiroedd maent yn meddiannu yn aml yn gynefin i rywogaethau bywyd gwyllt a diwylliannau dynol dan fygythiad. Maent hefyd yn llygru'r tir: Mae lluoedd arfog UDA yn cynhyrchu mwy o wastraff peryglus na'r pum cwmni cemegol rhyngwladol mwyaf gyda'i gilydd.

Mae lluoedd arfog gwledydd y byd yn defnyddio hyd yn oed fwy o'r awyr uwchben nag o'r tir, gan gyfrannu'n sylweddol i allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn UDA mae tua 70 y cant o'r gofod awyr yn cael ei ddefnyddio at ddibenion milwrol - ac mae canran uchel iawn o hyn dros dir pobloedd frodorol. Mae pobl ac anifeiliaid canolbarth Cymru wedi dioddef ers degawdau o effaith hedfan isel awyrennau milwrol. A nawr

mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi caniatâd i ddefnyddio coridor awyr o Aberporth i'r Bannau i brofi awyrennau di-beilot ('*drones*').

Tu ôl i hyn oll, a'r peth mwyaf peryglus, yw sut mae militariaeth wedi dod i reoli economïau gwledydd cyfan a'r economi global. Yn UDA mae militariaeth wedi cysylltu'n uniongyrchol (e.e., trwy gynhyrchu arfau) neu'n anuniongyrchol (e.e., trwy redeg gwerysilloedd hyfforddi a chyflogi pobl sydd ddim yn aelodau o'r lluoedd arfog) gyda hanner - 50 y cant - o'r holl weithgarwch economaidd. Mae hyn wedi creu strwythur, sef, rhwydwaith rhyngwladol o gorfforaethau sy'n dibynnu ar y system militaraid i'w cynnal eu hunain.

Yn yr ystyr hon, militariaeth yw prif yrrwr y system o brynwriaeth a defnydd anghyfrifol o adnoddau'r blaned sy'n peryglu dyfodol dynoliaeth a dyfodol bywyd ar y Ddaear. Wrth feddwl am hyn, hoffwn ddyfynnu rhan o araith enwog Dwight D. Eisenhower, cyn-Uwch Gadfridog Lluoedd y Cynghreiriaid yn yr Ail Ryfel Byd, wrth iddo orffen ei ail dymor fel Arlywydd America ym 1961, pryd rhybuddiodd yn erbyn twf y 'military industrial complex':

'Until the latest of our world conflicts, the United States had no armaments industry. American makers of plowshares could, with time and as required, make swords as well. But now... we have been compelled to create a permanent armaments industry of vast proportions. Added to this, three and a half million men and women are directly engaged in the defense establishment. We annually spend on military security more than the net income of all United State corporations.

'This conjunction of an immense military establishment and a large arms industry is new in the American experience. The total influence – economic, political, even spiritual – is felt in every city, every state house, every office of the Federal government.... we must not fail to comprehend [the] grave implications [of this development]. Our toil, resources and livelihood are all involved; so is the very structure of our society.

'In the councils of government, we must guard against the acquisition of unwarranted influence, whether sought or unsought, by the military-industrial

complex. The potential for the disastrous rise of misplaced power exists and will persist.'

Aeth Eisenhower ymlaen, mewn rhan o'i araith sy ddim yn cael ei ddyfynu mor aml, i ddangos yr un weledigaeth ynglyn a'r canlyniad os anwybyddwyd ei rybuddion:

'As we peer into society's future, we – you and I, and our government – must avoid the impulse to live only for today, plundering, for our own ease and convenience, the precious resources of tomorrow. We cannot mortgage the material assets of our grandchildren without risking the loss also of their political and spiritual heritage.'

Yn anffodus gwireddwyd ofnau Eisehower, a'r hyn y rhybuddiodd amdano. Ac mae'r peryglon rydyn ni'n eu hwynebu gan y 'military industrial complex' yn enfawr. Ystyriwch hyn: Comisiynodd y Pentagon adroddiad yn 2003 ar y bygythiad i ddiogelwch cenedlaethol oddiwrth newid hinsawdd a'i ganlyniadau tebyg. Roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod newid hinsawdd yn fwy o fygythiad na therfysgaeth, ei ganlyniadau yn debyg i gynnwys newyn dros ardaloedd eang, terfysgoedd fel canlyniad i brinder bwyd a dŵr, rhyfeloedd dros adnoddau prin (sy'n digwydd yn barod) ac ymfudo ar raddfa enfawr. Ac ymateb y Pentagon - Cryfhau'r lluoedd arfog ymhellach i amddiffyn yn fwy effeithiol, ac ystyried defnyddio glo hylifedig (*liquefied coal*) a biodanwydd - y ddau o rain yn ychwanegu at newid hinsawdd - i lenwi anghenion ar ôl i'r olew ddiflannu. Yn lle cydnabod cyd-ddibyniaeth holl systemau ecolegol y ddaear, a'r angen i sicrhau cyd-weithredu byd-eang i'w gwarchod ac i newid ein ffordd o fyw er mwyn y blaned, mewn un frawddeg frawychus mae'r adroddiad yn crynhoi safbwynt y 'military industrial complex':

'Deaths from war as well as starvation and disease will decrease population size, which over time, will re-balance with carrying capacity.' 'Carrying capacity' yw eu terminoleg nhw am allu'r ddaear i ddarparu cartref i deuluoedd a chymunedau.

Wrth ystyried hyn oll, mae gyda ni hefyd ddisgrifiad brawychus gan David Cameron eleni – wrth i Gaerdydd ennill sylw a chanmoliaeth am gynnal Dydd y Lluoedd Arfog

llwyddiannus – o'i uchelgais ef am y lluoedd milwrol: 'Dw i eisiau eich rhoi chi ar flaen ac ynghanol ein bywyd cenedlaethol eto'.

Rydw i'n gobeithio fy mod i wedi'ch argyhoeddi bod rhaid i'r mudiad heddwch a mudiad y Ddaear gyd-redeg, nad ydym yn gallu esgeuluso un wrth ganolbwyntio ar y llall. Fy nghred i yw bod gwarchod y blaned yn gorfod bod yn gyd-destun i'r cyfan a wnawn.

Trof yn ôl at brofiad personol iawn wrth orffen.

Roedd Al Gore, yn y ffilm *An Inconvenient Truth*, wedi sôn am sut mae un digwyddiad weithiau yn agor eich llygaid yn sydyn i ryw wirionedd roeddech chi wedi bod yn ei anwybyddu. Yn ei achos ei hun, marwolaeth ei chwaer o ganer yr ysgyfaint oedd wedi'i argyhoeddi fe, a'i dad - oedd wedi tyfu tybaco am flynyddoedd ar fferm y teulu - am wir beryglon smygu sigarennau.

Digwyddiad flwyddyn yn ôl gafodd effaith fawr debyg arnon ni fel teulu... nid cymaint ein troi at y mudiad heddwch, roedden ni yno'n barod, ond trwy gadarnhau ein hymroddiad.

Buon ni'n byw yn Ne Carolina am dair blynedd pan oedd ein merch, Elen Gwenllian, yn fach. Roedd hi'n ddwy oed yn dechrau mewn meithrinfa (gydag enw crand Americanaidd y Washington Street Methodist Church Child Development Centre) ac o fewn ychydig roedd hi wedi dod yn ffrindiau gorau gydag Anna Palmer Bigham. Mae eu cyfeillgarwch agos wedi para dros y blynyddoedd ers i ni symud nôl i Gymru, yn gweld ei gilydd yn flynyddol ar ein hymweliadau at deulu America ac yn cysylltu trwy'r post, ffôn ac, erbyn hyn, Facebook. Daeth y ddau deulu yn ffrindiau hefyd, gyda Hywel a finnau'n cwrdd â rhieni Anna a'i brawd bach Mills yn aml.

Ar ôl gorffen ysgol, ymunodd Mills â'r fyddin, a chafodd ei anfon i Irac. Daeth adre ar ddiwedd ei wasanaeth, yn ddianaf yn gorfforol ond yn dioddef yn seicolegol. Roedd Anna yn ymdrechu i gael help iddo, ond doedd fawr o ddiddordeb gyda'r fyddin na'r llywodraeth mewn cyn-filwr yn dioddef iselder ysbryd a *post-traumatic stress*. Un

noson, yn dilyn ymweliad gyda'i rieni, aeth i'w gar a saethodd ei hun. Dyma ddarn ysgrifennodd 'on October 3, 2009 at 2:43 AM', tua phythefnos cyn ei farwolaeth.

'Let me tell you about my first kill, so you can understand the way death may or may not affect the living party.

'It took place in Hit, Iraq, on February 13th, 2006. I was on point, patrolling south, and searching for IEDs on the Main Service Road. I was doing everything a 19 year old does when he thinks that he is bulletproof. I would jump down into IED craters and kick the dirt around.

'The largest crater was also the last, and closest, to base. I had just finished climbing out of the crater and was resuming the trek south. I was looking over my left shoulder, making sure I wasn't walking too fast. I hear a Marine scream, "GRENADE".

'I rotated my body fully to the right, bringing my rifle to the alert simultaneously. I see the person in the follow through of his throw. The grenade is spinning slowly, the spoon coming off slowly. The sound of body armor, and the bodies they protect, hitting the concrete created a strange thump, thump, thump sound. I pulled the trigger, quickly, twice. Pop... Pop. 'The grenade was a dud.

'We approach the person, carefully, we don't know if he has any more explosives on him. As I get near him, it is abruptly clear he is leaving this world, and soon. He is suffocating on his own blood. He is blowing blood bubbles through his red teeth. He is crying. There are bubbles coming from the two holes in his chest. One to the left of his heart, and the other to the right.

'Death took him, and there were no new bubbles.

'He cried no more. I checked his ID. He is 12.

I wept that night.

'The rest of the kills I made did not affect me in this way at all. It is true what they say, the first is the worst, and then it only gets easier.. I also learned I was not bulletproof.'

Oferedd ac erchylltra rhyfel! Ond mae neges galonogol hefyd. Dim ond ychydig o fisoedd wedyn dyma Anna yn bwrw ati i ddechrau sefydliad o'r enw Hidden Wounds i helpu milwyr, a chyn-filwyr, â phroblemau seicolegol i ddod o hyd i gymorth.

Mae'r dasg o amddiffyn ein daear – gan gynnwys gweithredu i ddod a'r drefn ddiwydiannol militaraidd i ben – yn enfawr. Ond mae unigolion yn gallu gwneud gwahaniaeth. Rhaid gweithredu i achub ein hunig gartref planedol rhag dinistr.